

DOLEN Y TAB – 41

5–6 CHWEFROR 2021

OEDFA RITHIOL 7 CHWEFROR

Rhai o aelodau pentref Pentyrch fydd yn arwain yr oedfa ddigidol ar ein cyfer ddydd Sul, pan ddaw cyfle i ganolbwyntio ar weithredoedd da pobl sy'n gweld cyfle i wneud daioni yn wyneb sefyllfaoedd anodd. Dyma'r rhai sy'n codi calon, ac yn llwyddo i wneud gwahaniaeth. Byddwn ninnau'n dathlu eu hymdrechion. Ymunwch â ni ar Facebook, ar y wefan ac ar YouTube.

YR OEDFAON NESAF

Chwefror

- 14 Y Parchedig Aled Edwards.
21 Lyn West.
28 Lowri a Dafydd a'r teulu.

Mawrth

- 7 Y Parchedig Aled Edwards.

Hefyd ar 7 Chwefror . . .

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol
Dan ofal Melda Grantham, Capel Dewi, Llandysul.

12.00 Oedfa Radio Cymru
Yng ngofal y Parchg. Allan Pickard, Caerdydd.

12.30 Radio Cymru
Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn pob bendith a chydymdeimlad gyda Nia Thompson, Nant y Felin, Creigiau a'i theulu ar farwolaeth ei thad, Y Parchg. Ieuan Davies, yn ddiweddar. Bydd rhai o'n haelodau yn ei gofio yn pregethu yn y Tabernacl a hefyd fel un a wasanaethodd fel gweinidog Capel Minny Street rhwng 1989 a 1998. Yn rhifyn yr wythnos hon o'r *Tyst* (www.annibynwyr.org/tyst/) mae ei gyfaill, y Parchg. Iwan Llewelyn, Porthmadog, yn talu teyrnged hyfryd iddo.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 9 Chwefror. Os oes unrhyw fater y carech ei godi, yna anfonwch air at yr Ysgrifennydd: (gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 neu 01443 225205 erbyn nos Lun 8 Chwefror fan bellaf.

RHANDIROEDD

Estynnir gwahoddiad i aelodau o'r Tabernacl roi cynnig am un o'r lleiniau newydd sydd ar gael bellach yn rhandir y capel, yn dilyn yr holl waith a wnaed i gymhennu'r tiroedd. Mae'r cynnig hwn wedi ei gyfyngu yn y lle cyntaf i aelodau'r capel yn unig, ond os na ddangosir diddordeb ymhlith yr aelodau yna fe estynnir y gwahoddiad i'r gymuned ehangach ym mhentref Efail Isaf. Os oes gennych ddiddordeb, neu i gael rhagor o fanylion, cysylltwch naill ai gydag Emlyn 'Pens' Jones (pens37@outlook.com / 07881 501137) neu Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk / 07974 186596.

TAFOD Y TAB

Os na chawsoch gyfle eto i 'bori' drwy dudalennau *Tafod y Tab* mis Ionawr ar un o'r llwyfannau digidol – ar ein gwefan (www.tabernacl.org) neu'r dudalen Facebook (<https://www.facebook.com/groups/160892754663847>) yna nid yw'n rhy hwyr i wneud hynny. Yn anffodus, ni chynhyrchir copi caled y tro hwn.

Undeb yr Annibynwyr Cymdeithas Hanes

Y Pla ac Ymateb yr Eglwys

Siaradwr Gwadd: Y Parchg. Ddr. Alun Tudur

7.30 Nos Fercher 10 Chwefror 2021

Linc Zoom:

<https://us02web.zoom.us/j/85891049725?pwd=aVJ6bk1DeG-U3K1IzLzEwOjBYN2NWZz09>

Meeting ID: 858 9104 9725 Passcode: Undeb


Cylchlythyr wythnosol yw Dolen y Tab i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.

'Gadewch i blant bychain...'

Ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd cyfrol academiaidd y bu hir ddisgwyl amdani, sef **Darllen y Dychymyg** gan Dr Siwan Rosser, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Llyfrau a chylchgronau Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg a luniwyd i blant a phobl ifanc yw prif ffocws yr astudiaeth. Gwneir hynny trwy ddadansoddi'r cymhellion oedd yn denu awduron ar y pryd i ysgrifennu ar gyfer plant. Un o brif gasgliadau ei hymchwil yw nad yw'r cysyniad o blentynod yn un sefydlog o genhedlaeth i genhedlaeth, nac ychwaith yn unfurf o fewn cyfnod o amser. Ym myd llenyddiaeth plant heddiw rhoddir y prif bwyslais yn bennaf ar ddenu plant i ddarllen trwy ddarparu deunydd deniadol i'w difyrru. Ond nid dyna oedd yr prif ysgogiad i awduron yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y tystia'r gyfrol hon.



Fe grybwyllais ar y dechrau fod hir ddisgwyl wedi bod am astudiaeth o'r math yma ar lenyddiaeth Gymraeg i blant. Y prif ffactor dros yr oedi oedd y ffaith na chafodd llenyddiaeth plant ei gydnabod yn destun academiaidd dilys gan Adrannau Cymraeg ein Prifysgolion hyd yn ddiweddar iawn, ac i Siwan Rosser mae'r clod am y newid agwedd. Ar nodyn personol, mae'n anodd iawn gennyf gredu bod dros ddeugain mlynedd bellach wedi mynd heibio ers i mi neidio ar y cyfle i ddatblygu modiwl prin iawn ar y pryd ar lenyddiaeth Gymraeg i blant, a hynny i fyfyrwyr is-raddedig yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru. Hyd y gallwn weld, dim ond ambell un o'r colegau hyfforddi athrawon yn y cyfnod hwnnw oedd yn rhoi unrhyw bwys ar astudio llenyddiaeth Gymraeg i blant.

Dyddiau Cynnar Cylchgronau Plant

Rhwng cloriau cylchgronau, yn hytrach na llyfrau, y cyhoeddwyd dros 80% o'r cynnyrch llenyddol i blant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr *Addysgydd* oedd y cyfnodolyn cyntaf i'w anelu at blant, a rhwng blwyddyn ei sefydlu yn 1823 a chyhoeddi rhifyn cyntaf *Cymru'r Plant* Owen M. Edwards yn 1892, cafwyd cynhaeaf toreithiog o gylchgronau i blant er mai byrhoedlog fu hanes llawer ohonynt megis *Athraw i Blentyn* (1827–29) a *Yr Oenig* (1857–59). Ymlyniad cul, enwadol sy'n esbonio hirhoedledd teitlau eraill megis *Tywysydd y Plant* (1837–1965) a'r *Winllan* (1848–1965). Yn ddieithriad bron, gweinidogion oedd sylfaenwyr a golygyddion y cylchgronau cynnar, ac adlewyrchir hynny yn eu cynnwys unfurf, sef dysgu moesau da i blant er mwyn iddynt fod yn Gristnogion da. O ganlyniad, ffrwyth daliadau crefyddol oedd rhan helaethaf eu cynnwys – fel y tystia teitlau rhai o'r ysgrifau, megis 'Ymddygiad anweddaidd mewn addoldy', a 'Cospedigaeth pechod yn y bywyd hwn'.

Tra bo cymhelliad yr arloeswyr hyn yn deilwng iawn, nid gormodiaith fyddai dweud ei bod yn amhosib dychmygu plentyn yn rhoi popeth o'r neilltu er mwyn encilio i gornel dawel i bori drwy'r tudalennau. Diffyg y cylchgronau hyn oedd methiant eu golygyddion, fel llawer iawn yn y cyfnod, i sylweddoli bod tymor plentynod yn galw am ddarpariaeth wahanol o ran cynnwys ac ieithwedd i'r hyn a ddarperid i oedolion.

Un elfen arall yw bod cannoedd o deyrngedau a cherddi coffa i blant yn britho'r tudalennau. Ar un olwg, mae'n anochel meddwl – pan oedd cyfartaledd uchel o blant yn marw'n ifanc iawn – bod modd cynnig cysur i'r darllenwyr oedd wedi colli brawd neu chwaer trwy gyfeirio at y ffaith bod yr ymadawedig wedi mynd i 'fyd gwell'. Ond ar y llaw arall, mae'n amheus a oedd pwrpas mewn cyfeirio mor fynych at farwolaethau – oni bai bod y golygyddion yn credu ei bod yn ffordd hynod effeithiol o ddylanwadu ar eu hymddygiad trwy beri ofn a dychryn yn eu calonau. Sut arall mae deall y cyfarchiad Blwyddyn Newydd yn rhifyn Ionawr 1860 o *Telyn y Plant*.

'Beth fydd wedi cymeryd lle erbyn ei diwedd? Pa faint o ddarllenwyr y Delyn fydd wedi marw?'

Newid Cywair

Ond fel yr âi'r ganrif yn ei blaen, dechreuodd rhai golygyddion sylweddoli nad oedd modd denu sylw'r plant heb sicrhau bod o leiaf beth o'r deunydd yn ddifyr a darllenadwy. Aeth rhai ati, felly, i geisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng bod yn adeiladol ar y naill law ac yn adloniadol ar y llaw arall. Ar flaen y gad roedd y Parchg. Thomas Levi, a hynny dros gyfnod o hanner can mlynedd, o 1862 i 1912, y bu'n golygu *Trysorfa y Plant*. Mae'r cwplod agoriadol i gerdd ysgafn a gyhoeddwyd yn rhifyn Chwefror 1892 yn crisialu i'r dim bolisi golygyddol y cylchgrawn yn ystod ei dymor:

*'A glywsoch chwi chwedl y gath a'r llygoden?
Cewch ynddi ddifyrrwch a gwers yn y fargen.'*

Gofalodd fod y *Trysorfa y Plant* hefyd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol, hanes am ddyfeisiadau newydd ac enwogion mewn gwahanol feysydd, ac ymdrechodd yn galed i gynnwys darluniau diddorol ym mhob rhifyn. Ond efallai mai'r peth mwyaf cyffrous oedd cyhoeddi, fesul pennod, stori antur am *'Albert Maywood, neu Fywyd ymysg yr Indiaid Cochion'* er mawr ddifyrrwch i'r darllenwyr ifanc.

Cryfder Thomas Levi oedd ei fod yn adnabod meddwl plentyn i'r dim ac yn gwybod beth fyddai'n apelio at ei ddychymyg. Does ryfedd yn y byd felly bod gwerthiant y cylchgrawn wedi codi o 11,000 yn ei flwyddyn gyntaf i 44,000 bymtheng mlynedd yn ddiweddarach. A fe oedd yr unig un o'r golygyddion hyn a lwyddodd i ddenu darllenwyr nid yn unig o blith plant ei enwad, sef y Methodistiaid Calфинаidd, ond hefyd ymhlith plant roedd ei rhieni yn perthyn i enwadau eraill. Nawr dyna beth oedd gwyर्थ!

Siwan M. Rosser, *Darllen y Dychymyg*.
Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2020.